**<u>Pwyllgor Materion Ewropeaidd</u>**

**COFNODION**

**Dyddiad:** 25 Tachwedd 1999

**Amser:** 9.30am

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgor 1

**Yn bresennol:**

**Aelodau**

Alun Michael, Cadeirydd - Llafur a Chydweithredol: Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mick Bates - Democratiaid Rhyddfrydol: Sir Drefaldwyn

Nicholas Bourne - Ceidwadwyr: Canolbarth a Gorllewin Cymru

Christine Gwyther - Llafur: Gorllewin a De Caerfyrddin

Elin Jones - Plaid Cymru: Ceredigion

Jonathan Morgan - Ceidwadwr: Canol De Cymru

Rhodri Morgan - Llafur: Gorllewin Caerdydd

Alun Pugh - Llafur: Gorllewin Clwyd

Rhodri Glyn Thomas - Plaid Cymru: Caerfyrddin a Dwyrain Dinefwr

Phil Williams - Plaid Cymru: Dwyrain De Cymru

Yr Athro Rose D'Sa - ECOSOC

Joseph Gallacher - Cyfarwyddwr Canolfan Ewropeaidd Cymru

**Swyddogion**

Hugh Rawlings - Pennaeth, Uned Materion Ewropeaidd

Caroline Turner - Uned Materion Ewropeaidd

Catherine Eva - Pennaeth Cynrychiolaeth y CE yng Nghymru

Andrew George - Clerc

Julie Bragg - Dirprwy Glerc

Ymddiheuriadau: Val Feld; Brian Smith, Pwyllgor y Rhanbarthau; George Wright, ECOSOC; Glenys Kinnock, Jonathan Evans, Jill Evans, Eurig Wyn ac Eluned Morgan, ASEau

**Eitem 1 ar yr Agenda: Sylwadau agoriadol y Cadeirydd**

1.1 Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod. Dywedodd nad oedd unrhyw ASEau wedi gallu mynychu oherwydd nad oedd amseru'r cyfarfod yn gyfleus iddynt. Atgoffodd yr Ysgrifenyddiaeth i barhau i ofyn i'r ASEau pryd oeddent ar gael wrth lunio amserlen y cyfarfodydd. Nododd hefyd fod Val Feld yn absennol oherwydd ei bod yn cynrychioli'r Cynulliad mewn cynhadledd yn Helsinki ynglþn â'r defnydd o TGC mewn rhanbarthau Ewropeaidd llai. Cytunodd yr Aelodau ar gynnig y dylid gofyn iddi roddi adroddiad i'r Pwyllgor am ei phrofiad maes o law.

**Eitem 2 ar yr Agenda: Cynrychiolaeth o'r Cynulliad ym Mrwsel**

a. **Swyddfa'r Cynulliad**
b. **Canolfan Ewropeaidd Cymru**

**Papurau:** EUR-03-99(p.1W) ac EUR-03-99(p.2W)

2.1 Gofynnodd y Cadeirydd i Hugh Rawlings gyflwyno'r papurau hyn a oedd yn disgrifio dull gweithredu cyflenwol i gynrychiolaeth o'r Cynulliad ym Mrwsel trwy sefydlu swyddfa at y pwrpas o fewn Cynrychiolaeth Barhaol y DU yn y Comisiwn Ewropeaidd; a thrwy ddod yn bartner yng Nghanolfan Ewropeaidd Cymru (WEC). Byddai swyddfa'r Cynulliad yn darparu gwasanaethau penodol i'r Cynulliad na fyddai'n addas i Ganolfan Ewropeaidd Cymru eu cynnig. Byddai'n cael ei lleoli yn yr un swyddfa â'r Ganolfan a byddai trefniadau ynglþn â rhent yn cael eu cytuno. Y gobaith oedd agor y swyddfa yn gynnar yn y flwyddyn 2000. Roedd adroddiad gan y Scottish Office ynglþn â sut oedd y gwahanol ranbarthau Ewropeaidd yn cael eu cynrychioli ym Mrwsel, wedi cael ei ddosbarthu i Aelodau'r Cynulliad er gwybodaeth ar 5

Tachwedd.

2.2 Roedd bwrdd WEC yn ystyried y cynigion ynglþn ag aelodaeth y Cynulliad o'r Ganolfan. Roedd hi'n bwysig na ddylai aelodaeth y Cynulliad gael ei ystyried fel petaent yn cymryd yr awenau. Byddai'r Cynulliad yn gwneud cyfraniad ariannol i'r Ganolfan yn yr un ffordd ag y byddai pob aelod arall yn gwneud. Efallai byddai gwahanol safbwyntiau ymysg aelodau'r Ganolfan o bryd i'w gilydd, ac roedd hyn i'w ddisgwyl, yn ogystal â’r ddealltwriaeth y byddai angen i aelodau unigol gadw cyfrinachedd eu busnes eu hunain. Fodd bynnag, byddai aelodaeth y Cynulliad yn atgyfnerthu'r syniad o ddull gweithredu ar ffurf 'Tîm Cymru'.

2.3 Wrth drafod, gofynnwyd a fyddai swyddfa'r Cynulliad yn gwasanaethu holl Aelodau'r Cynulliad neu Ysgrifenyddion y Cynulliad yn unig. Cadarnhawyd y byddai gwasanaethau'n cael eu darparu i bob Aelod ond roedd hi'n anochel y byddai natur arbennig y rhain yn wahanol. Er enghraifft, byddai Ysgrifennydd o'r Cynulliad sy'n cynrychioli'r Cynulliad mewn cyfarfod Gweinidogol ym Mrwsel yn derbyn gwasanaeth gwahanol i Aelod o'r Cynulliad sy'n dod ar ymweliad anffurfiol.

2.4 Nid oedd hi'n bosibl rhoi ffigwr penodol ar gyfer tâl tanysgrifio blynyddol y Cynulliad i'r Ganolfan gan fod y mater yn cael ei drafod o hyd. Fodd bynnag, nododd yr Aelodau fod cyfanswm y tâl tanysgrifio a dalwyd gan aelodau awdurdodau lleol yn £189,000 y flwyddyn.

2.5 Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Cadeirydd fod y pedwar cynrychiolydd o Gymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau (COR), wedi cael eu dewis o lywodraeth leol yn y gorffennol. Fodd bynnag, yn dilyn datganoli, byddai'r Cynulliad yn gallu enwebu dau gynrychiolydd o blith ei aelodau ei hunan. Byddai cynigion yn cael eu cyflwyno i'r Cynulliad maes o law. Esboniodd Rose D'Sa fod gwaith Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol yr Undeb Ewropeaidd (ECOSOC) yn union yr un fath â gwaith Pwyllgor y Rhanbarthau, ond bod ei gynrychiolwyr yn aelodau o'r cyhoedd yn hytrach na gwleidyddion. Gallai ECOSOC fod o ddefnydd wrth ehangu swyddogaeth gynrychioliadol y Cynulliad. Gofynnodd y Cadeirydd i'r swyddogion ystyried sut gallai aelodau ECOSOC gael mynediad i safle'r Ganolfan ar y we er mwyn cael gwybodaeth am y broses o ddrafftio penderfyniadau yn y CE a diwygiadau iddynt.

**Eitem 3 ar yr Agenda: Secondiadau i Sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd**

**Papur:** EUR-03-99(p.3W)

3.1 Wrth gyflwyno'r papur hwn, esboniodd Hugh Rawlings fod secondiadau gweision sifil i Frwsel o’r Swyddfa Gymreig yn y gorffennol wedi cael eu cynllunio'n bennaf i gynorthwyo unigolion i ennill profiad ehangach a hybu eu gyrfaoedd. Yn hyn o beth, roedd secondiadau i'r UE wedi cael eu hystyried yn yr un cyd-destun â'r rhai hynny i sefydliadau eraill yng Nghymru. Erbyn hyn, roedd hi'n fwy addas i ystyried secondiadau i'r UE fel ffordd o hyrwyddo diddordebau'r Cynulliad a sicrhau fod unigolion yn cael eu gosod mewn swyddi a fyddai'n elwa

o'u profiad ym Mrwsel ar ôl dod yn ôl i'r Cynulliad. Hefyd, cydnabuwyd fod angen i'r Uned Materion Ewropeaidd gydweithio â'r rhai a oedd i gael secondiad cyn iddynt fynd er mwyn iddyn nhw a'r Cynulliad elwa cymaint ag yr oedd modd o'r profiad. Hysbysebwyd y posibilrwydd o secondiadau i'r UE i'r staff ar 19 Tachwedd ac roedd nifer sylweddol wedi datgan diddordeb eisoes.

3.2 Yn ystod y drafodaeth, derbyniwyd fod angen i'r Cynulliad fabwysiadu dull gweithredu mwy strategol tuag at osod unigolion mewn sefydliadau Ewropeaidd. Roedd y Scottish Office a Llywodraeth Iwerddon wedi gwneud ymdrech i osod eu swyddogion mewn swyddi allweddol yn Ewrop mewn ffordd nad oedd Cymru wedi gwneud yn y gorffennol. Roedd hi'n hanfodol i ddefnyddio talentau staff i'r eithaf o gofio'r cyfanswm gweddol fach sy'n gweithio i'r Cynulliad. Byddai cyfleoedd ar gyfer secondiadau'n cael eu hystyried wrth iddynt godi a byddai'r Pwyllgor yn dychwelyd at bwnc secondiadau yn y dyfodol.

**Eitem 4 ar yr Agenda: Gweithredu Cyfarwyddebau Ewropeaidd**

**Papur:** EUR-03-99(p.4W)

4.1 Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod wedi ysgrifennu at Ysgrifenyddion y Cynulliad i ofyn iddynt edrych ar effaith cyfarwyddebau Ewropeaidd ar eu meysydd cyfrifoldeb a sôn wrth y pwyllgorau pwnc perthnasol os oedd hynny'n addas. Roedd Jill Evans ASE wedi bod o gymorth trwy ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr i'r swyddogion ynglþn â Phwyllgorau Senedd Ewrop a'r meysydd polisi y maent yn gyfrifol amdanynt. Byddai system fonitro ganolog ar gyfer gweithredu trefniadau yng Nghymru yn hanfodol er mwyn sicrhau fod penderfyniadau Ewropeaidd yn cael eu gweithredu mewn pryd ac ni fyddai angen gweithredu i ddelio â'r rhai sy'n torri'r rheolau. Cytunwyd y dylai swyddogion ddosbarthu fersiwn o'r papur i bob Aelod o'r Cynulliad er gwybodaeth.

**Eitem 5 ar yr Agenda: Trefniadau arfaethedig ar gyfer ymweliad y Pwyllgor Materion Ewropeaidd â Brwsel**

**Papur:** EUR-03-99(p.5W)

5.1 Cytunodd y Pwyllgor i'r cynnig i fynd ar ymweliad busnes i Brwsel. Byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn hysbysu'r aelodau o ddyddiadau posibl er mwyn iddynt eu nodi yn eu dyddiaduron. Roedd yr wythnos sy'n dechrau ar 28 Chwefror 2000 yn cael ei hystyried o ganlyniad i'r posibilrwydd y byddai adeilad newydd Canolfan Ewropeaidd Cymru yn cael ei agor pryd hynny. Byddai’r Ysgrifenyddiaeth yn cadarnhau'r dyddiadau cyn gynted ag y bo modd.

**Eitem 6 ar yr Agenda: Papur Gwyn y DU ynglþn â Datblygiadau yn yr UE**

**Papur:** EUR-03-99(p.6W)

6.1 Soniodd yr Aelodau fod y Papur Gwyn hwn yn cael ei gyhoeddi bob chwe mis. Roedd y rhifyn diweddaraf ar gael i'r Aelodau ei weld ar safle'r Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad ar y we.

**Eitem 7 ar yr Agenda: Cynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru**

**(i) Papur:** EUR-03-99(p.7W)

**(ii) Cyflwyniad gan Catherine Eva, Pennaeth Cynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru**

7.1 Amlinellodd Catherine Eva swyddogaeth swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru a'r ffordd yr oedd ei swyddogaeth wedi datblygu ers ei sefydlu ym 1973. Mae'n rhan o dîm Arlywydd y CE ac mae'n gyfrifol am lunio adroddiadau gwleidyddol, cynnal cysylltiadau gwleidyddol yn ogystal â chyfathrebu a delio â'r cyfryngau. Yn ogystal ag anfon adroddiad dyddiol i'r CE ynglþn â gweithgareddau yng Nghymru, roedd y Gynrychiolaeth, sydd â staff o 3, yn darparu deunydd briffio i'r CE ynglþn â datblygiadau yn ymwneud â datganoli, yn darparu gwybodaeth gan weithio gyda darparwyr lleol, yn cynnal seminarau a sesiynau briffio ac yn gallu darparu seminarau misol i Aelodau'r Cynulliad ynglþn â materion yn ymwneud â'r CE. Trefnodd ymweliadau ar gyfer Comisiynwyr y CE hefyd: byddai Chris Patten, Franz Fischler a Michel Barnier yn ymweld ar wahân yng Ngwanwyn 2000.

7.2 Cytunodd yr Aelodau y dylai Catherine Eva dderbyn gwahoddiad i fynychu a chyfrannu at gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol er mwyn i bob elfen o'r rhwydwaith gwybodaeth a gwleidyddol yng Nghymru gael ei chynrychioli.

**Eitem 8 ar yr Agenda: Derbyn adroddiad o gyfarfod cyntaf Fforwm Ewropeaidd Cymru ac agenda drafft ar gyfer y fforwm nesaf ym mis Ebrill 2000**

**Papur:** EUR-03-99(p.8W)

8.1 Dywedodd y Cadeirydd fod cyfarfod Fforwm Ewropeaidd Cymru ar 22 Hydref wedi bod yn ddigwyddiad mawr ac arbennig, ond roedd hi'n amlwg fod llai o lawer yn bresennol yn y prynhawn. Awgrymodd y byddai'n rhaid cael cynrychiolaeth gref a ffocws go iawn yn y cyfarfodydd yn y dyfodol er mwyn i'r diddordeb barhau'n frwd trwy gydol y digwyddiad.

8.2 Ar ôl trafod, cytunwyd y dylid cynnal digwyddiad hanner diwrnod o hyd ar "Ewrop a busnes" yn Ne Cymru ym mis Ebrill 2000. Gofynnwyd i'r swyddogion lunio cynigion ar gyfer digwyddiad ar wahân yng Ngogledd Cymru a fyddai'n canolbwyntio ar faterion sy'n berthnasol i Ogledd Cymru.

**Eitem 9 ar yr Agenda: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**Papur:** EUR-02-99(minW)

9.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf ar yr amod fod y drydedd frawddeg ym mharagraff 6.1 yn cael ei diwygio i ddarllen: 'Byddai hyn yn cael pwyslais ychydig yn wahanol sef y byddai Gorllewin Cymru'n awr yn derbyn arian Amcan 1 gan yr UE ac na fyddai Dwyrain Iwerddon yn derbyn yr arian'.

9.2 Y bwriad oedd cynnal y cyfarfod nesaf ar 17 Chwefror. Byddai'r dyddiad yn cael ei gadarnhau yn ystod y bythefnos nesaf ar ôl gweld Calendr diweddaraf Senedd Ewrop. Byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn trefnu cyfarfod anffurfiol byr i drafod y trefniadau ar gyfer yr ymweliad â Brwsel hefyd.

9.3 Daeth y cyfarfod i ben am 11.25am.